Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Y Gwir Anrhydeddus Steve Barclay AS

Prif Ysgrifennydd y Trysorlys

25 Chwefror 2021

Annwyl Brif Ysgrifennydd

**Ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Chwefror 2021 yn ymateb i'r materion a godwyd yn fy llythyr dyddiedig 8 Ionawr 2021. Fodd bynnag, nid ydych wedi ymateb i'r cais a wnaed yn fy llythyr dyddiedig 16 Chwefror 2021 i chi fynd i un o gyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid i drafod materion sy'n ymwneud â'r Fframwaith Cyllidol.

Er bod y Pwyllgor yn falch iawn bod Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi cytuno i fod yn bresennol i roi tystiolaeth ar faterion yn ymwneud â'i gyfrifoldebau, mae wedi ei gwneud yn glir iawn bod cwestiynau manwl am bolisi cyllidol Llywodraeth y DU a'r Fframwaith Cyllidol yn faterion i Drysorlys EM.

Yn ein hadroddiad codwyd cwestiynau allweddol ynghylch mecanweithiau datganoli trethi, tryloywder, ac ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ynghylch penderfyniadau cyllido, y potensial ar gyfer adolygu fformiwla Barnett; ac ystyriaeth o gynyddu pwerau benthyca. Er bod eich llythyr yn rhoi rhywfaint o wybodaeth am y meysydd hyn, mae eich amharodrwydd i fod yn bresennol yn amddifadu'r Aelodau o'r cyfle i archwilio'r materion pwysig hyn gyda chi yn fanwl.

Rydym yn gwerthfawrogi eich bod chi fel Ysgrifennydd Llywodraeth y DU yn atebol i Senedd y DU. Fodd bynnag, hoffwn eich atgoffa bod adroddiad y Comisiwn Annibynnol ar Ariannu a Chyllid i Gymru: Fairness and accountability: a new funding settlement for Wales, wedi argymell y dylid gwahodd un o Weinidogion y Trysorlys i gyfarfod â Phwyllgor Cyllid y Senedd o leiaf unwaith ym mhob cyfnod adolygu gwariant i drafod yr arian sydd ar gael i Gymru. Mae wedi bod yn beth amser ers i un o Weinidogion y Trysorlys fod yn barod i ymgysylltu â ni, ac mae'r ymgysylltu hwn yn hanfodol yn sgil gweithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

Mae'r Pwyllgor o'r farn bod eich amharodrwydd i gymryd rhan mewn gwaith craffu ar bwerau, sy'n dod o fewn cylch gwaith Llywodraeth Cymru ynghyd â Llywodraeth y DU, yn gosod cynsail sydd â goblygiadau cyfansoddiadol ac yn dangos diffyg parch i'r Senedd.

Byddwn yn eich annog i gytuno i gymryd rhan mewn un o gyfarfodydd y Pwyllgor Cyllid cyn diwedd y Senedd hon. Fodd bynnag, os ydych yn parhau i fod yn amharod i gymryd rhan mewn cyfarfod, byddai'n ddefnyddiol pe gallech amlinellu sut rydych yn disgwyl i'r Senedd ddod i gasgliad ynghylch llwyddiant neu fethiant Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS

Cadeirydd

CC: Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Elin Jones AS, Llywydd y Senedd